Cynllun diben ar gyfer cyflawni diben cyhoeddus y BBC: Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Diffiniad Ymddiriedolaeth y BBC o gylch gwaith y diben

Gallwch ddisgwyl i'r BBC gynnig yr enghreifftiau gorau o waith creadigol sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd, ac yn dwyn boddhad iddynt ac yn torri tir newydd. Bydd y BBC yn annog diddordeb, ymrwymiad a chyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol, creadigol a chwaraeon.

Blaenoriaethau'r diben

Mae Ymddiriedolaeth y BBC, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, wedi rhannu'r cylch gwaith hwn yn bum blaenoriaeth benodol:

1 Sefydlu enw da blaenllaw am raglenni creadigol ac arloesol.
2 Sicrhau bod pob cynulleidfa'n cael ei chyfoethogi drwy ddarparu arlwy eang o weithgareddau diwylliannol.
3 Annog pobl i gymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau diwylliannol.
4 Darparu ystod eang o gynnwys sy'n cynnig mwynhad ac adloniant.
5 Meithrin creadigrwydd a magu a chefnogi doniau'r DU ar draws meysydd amrywiol iawn.

Perfformiad o'i gymharu â'r diben

Yn gyffredinol, mae'r BBC yn dda iawn yn y gwaith o gyflawni'r diben hwn. Mae gan gynulleidfaoedd yn gyffredinol farn uchel am ansawdd ei chynnwys creadigol ym mhob maes, o ddrama i chwaraeon, adloniant i gomedi a rhaglenni ffeithiol.

Fodd bynnag, mae'r BBC yn wynebu rhai heriau er mwyn parhau i gyflawni'r diben hwn:

- Bydd cynulleidfaoedd fwyfwy yn disgwyl i'r BBC ddarparu ei chynnwys rhaglenni ar amrywiaeth o lwyfannau, yn y ffyrdd sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw eu defnyddio, gan gynnwys ar gais.
- Wrth i'r dewis ehangu, bydd gan gynulleidfaoedd ddisgwyliadau uwch a byddant yn troi at y BBC am gynnwys rhagorol, deniadol sy'n berthnasol iddyn nhw. Rhaid i'r BBC arloesi ac addasu er mwyn parhau i fodloni'r disgwyliadau hyn.
- Mae gan y BBC gyfraniad canolog i'w wneud yn y gwaith o gynnal cryfder diwydiannau creadigol y DU mewn marchnad gyfryngau cynyddol fyd-eang.

Hefyd, nododd Arolwg Cylch Gwaith Dibenion Ymddiriedolaeth y BBC bod yna fwlch rhwng disgwyliadau'r gynulleidfa a'u barn am berfformiad y BBC o ran y datganiadau canlynol:

- Mae gan y BBC lawer o syniadau ffres a newydd (blaenoriaeth 1).
- Mae gan y BBC amrywiaeth eang o raglenni a chynnwys sy'n rhoi mwynhad ac adloniant (blaenoriaeth 4).

O ran blaenoriaeth 1, dangosodd ymchwil yr Ymddiriedolaeth nad yw cynulleidfaoedd am weld y BBC yn newid cyfeiriad yn llwyr, ond maen nhw'n awyddus i weld mwy o syniadau ffres a newydd ac i raglenni arbennig o wreiddiol a nodedig gael mwy o amlygrwydd.

O ran blaenoriaeth 4, roedd y bwlch yn fwy amlwg ymysg cynulleidfaoedd sy'n llai bodlon â'r BBC a lleiafrifoedd ethnig.

Ymateb tîm rheoli'r BBC i'r bylchau

Gan symud ymlaen, bydd y BBC yn datblygu ei chryfderau presennol tra'n rhoi sylw i'r bylchau a ganfyddir a sicrhau y gellir cyflawni'r diben yn y dyfodol, trwy ail-flaenoriaethu rhai meysydd buddsoddi. Mae cynlluniau'n cynnwys:

- Rhoi mwy o bwyslais ar gomisiynu cynnwys nodedig, arloesol o safon gan fanteisio ar syniadau newydd â gwir uchelgais creadigol a golygyddol.
- Blaenoriaethu buddsoddiad mewn drama, comedi ac adloniant ar y teledu, yn enwedig ar BBC One. Mae'r mathau hyn o raglenni yn hanfodol er mwyn cyrraedd y rhai sy'n llai bodlon â'r BBC tra'n dal i gyflenwi gwerth i gynulleidfaoedd craidd.
- Buddsoddi mewn cynnwys ar-lein sy'n cynyddu gwybodaeth ac mewn cynnwys ar gyfer plant a'r glasoed ar draws y gwahanol lwyfannau.
- Cwtogi rhaglenni teledu yn gyffredinol 10% er mwyn rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn cynnwys o safon.
- Canolbwyntio'r oriau brig ar waith o safon uchel ym mhob maes.
- Darparu mwy o gyfleoedd i gynulleidfaoedd allu dod o hyd i gynnwys hygyrch o safon a'i ddefnyddio yn y ffyrdd sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw, yn enwedig trwy fuddsoddi mewn gwasanaethau ar gais megis BBC iPlayer.
- Buddsoddi mwy yn bbc.co.uk, gan sicrhau y gellir cyflawni'r portffolio ar-lein yn y dyfodol wrth i ddisgwyliadau'r gynulleidfa o'r cyfrwng newid a thanlinellu ei enw da am arloesedd a safon, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd sy'n defnyddio llai ar y gwasanaethau darlledu.
- Ymrwymiad i ddoniau amrywiol Prydain, rhai wedi'u hen sefydlu a rhai newydd, o bob rhan o'r DU. Bydd y BBC yn rhoi llwyfannau iddyn nhw i fynegi eu hunain a darparu lle i ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd.

Mae mwy o fanylion ar sut y bwriedir rhoi'r cynlluniau hyn ar waith isod.

Cyflawni blaenoriaethau'r diben

1 Darparu cynnyrch sy'n wahanol ac yn greadigol ar ei holl lwyfannau
Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai cynnyrch y BBC fod yn wahanol. Dylai'r BBC gynnwys cynnyrch yn rheolaidd sy'n torri tir newydd, sy'n datblygu ymagweddau ffres, sy'n gosod y cyfeiriad, ac sy'n mentro'n greadigol o ddrama a chomedi i adloniant a chwaraeon. Dylai wneud hyn ar draws pob platfform y mae'n gweithredu arno."

Bydd y BBC yn dangos ymrwymiad i arloesedd mewn ffyrdd gwahanol yn ei holl wasanaethau. Bydd yn buddsoddi mewn cynnwys nodedig sy'n dangos syniadau newydd a gwreiddiol, yn yr holl feysydd gwahanol ac ar yr holl lwyfannau, ac yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth cymunedau'r DU. Dyma rai blaenoriaethau penodol:

- **Drama** – Bydd drama boblogaidd ar BBC One yn arbrofi gyda syniadau ac agweddau newydd. Bydd BBC Two yn darlledu mwy o ddarnau gwreiddiol gan wahanol awduron. Bydd BBC Three yn cefnogi doniau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Bydd Radio 4 yn darparu cefnogaeth sylweddol i ddeunydd ysgrifenedig newydd o waith awduron dawnus sy'n dod i'r amlwg a rhai sefydledig.
- **Dulliau a fformatau newydd** – Bydd rhaglenni ffeithiol ar BBC Two yn edrych ar ffyrdd newydd o fynd i'r afael â phynciau difrifol a all apelio mwy at gynulleidfaoedd prif ffrwd a byddant yn cael lle amlwg yn ystod oriau brig. Bydd BBC Four yn datblygu ei dull nodweddiadol o weithio gyda deunydd pwnc mwy arbenigol neu ddeallusol. Bydd rhaglenni ffeithiol yn cael mwy o effaith a byddant yn fwy amlwg, yn sgil perthynas agosach rhwng y ddau wasanaeth.
- **Adloniant** – Byddwn yn canolbwyntio buddsoddiad ar syniadau a doniau newydd mewn amrywiaeth o wasanaethau, yn enwedig BBC One a BBC Three.
- **Cymryd risg** – Bydd y BBC yn cymryd risgiau gyda doniau newydd, ifanc a syniadau newydd amrywiol, gan roi lle iddyn nhw ddatblygu, ffynnu a, lle bo'n briodol, methu mewn amgylcheddau sy'n llai o risg. Bydd BBC Three yn bwysig yn hyn o beth, yn enwedig ym maes comedi, yn ogystal â gorsafoedd radio cerddorol y BBC o ran datblygu cyflwynwyr newydd.

- **Y glasoed** – Bydd y BBC yn datblygu rhaglenni newydd, aml-lwyfan go iawn i'r bobl ifanc yn eu harddegau, gan gynnwys rhaglenni teledu ym maes cerddoriaeth a drama, rhaglenni cerddoriaeth ar y radio a fformatau drama ac adloniant ar-lein.
- **bbc.co.uk** – Datblygir ffurfiau newydd o gynnwys aflinol hygyrch, megis ffurfiau naratif newydd, fformatau adloniant a chynnwys sy'n cynyddu gwybodaeth.
- **Technolegau newydd** – Gwneir y defnydd gorau posibl o ddatblygiadau newydd megis gwasanaeth HD TV a thechnolegau camera newydd er mwyn gwella safon ac effaith rhaglenni. Bydd gwella canfyddiadau am raglenni chwaraeon yn flaenoriaeth arbennig.

2 Sicrhau bod pob cynulleidfa'n cael ei chyfoethogi drwy ddarparu arlwy eang o weithgareddau diwylliannol

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC gynnig i'w chynulleidfaoedd yr enghreifftiau gorau o lawer gwahanol fath o weithgarwch creadigol yn amrywio o gerddoriaeth drefol i opera, o ddawnsio ffurfiol i bêl-droed, gan ymdrechu bob amser i ehangu gorwelion a denu cynulleidfaoedd i diriogaeth anghyfarwydd, gan gynnwys i feysydd chwaraeon lleiafrifol."

Bydd y BBC yn parhau i ddarlledu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon, gan adlewyrchu a chynorthwyo i ffurfio bywyd diwylliannol cyfoethog y DU. Y nod fydd apelio at gynulleidfa eang, trwy roi sylw i bynciau poblogaidd yn ogystal â diddordebau arbenigol neu leiafrifol.

- **Y celfyddydau** – bydd y rhaglenni yn y maes hwn, yn enwedig ar BBC Two, BBC Four, Radio 3 a Radio 4, ond hefyd ar rwydweithiau eraill gan gynnwys BBC One, yn ymdrechu i adlewyrchu a chefnogi cymuned gelfyddydol amrywiol y DU, tra'n cynorthwyo i ddatblygu ac ehangu gwybodaeth a mwynhad cynulleidfaoedd o amrywiaeth o gelfyddydau gweledol a pherfformio.
- **Cerddoriaeth** – Bydd y rhaglenni yn y maes hwn yn rhoi sylw i ystod amrywiol o feysydd, gan gynnwys ffurfiau brodorol i'r DU, megis cerddoriaeth werin a phres, a cherddoriaeth newydd gyfoes a chlasurol. Nod y BBC fydd rhoi'r rhaglenni hyn mewn cyd-destun – o safbwynt rhaglenni ac adnoddau ar-lein – er mwyn cynorthwyo cynulleidfaoedd i werthfawrogi'r hyn y maen nhw'n ei glywed. Bydd 6 Music yn arbennig yn galluogi pobl i ymchwilio i gerddoriaeth y gorffennol.
- **Cerddoriaeth fyw** – mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cerddoriaeth fyw ac ym mhob rhan o'i phortffolio bydd y BBC yn darlledu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw, yn cynnwys gwyliau, cyngherddau a sesiynau stiwdio. Bydd Radio 1 a Radio 2 yn cynnal eu digwyddiadau cerddoriaeth fyw eu hunain a bydd Radio 3 yn darparu llwyfan i Grwpiau Perfformio'r BBC.
- **Ffilm –** Gan ddatblygu ei swyddogaeth sylweddol yn niwydiant ffilm y DU, bydd y BBC yn buddsoddi mwy ym maes cynhyrchu ffilmiau gwreiddiol. Bydd hefyd yn ymdrechu i gyflwyno ffilmiau diweddar Prydain i gynulleidfa ehangach. Trwy ei phartneriaeth gyda Chyngor Ffilm y DU bydd yn cefnogi ffilmiau a'r diwydiant cynhyrchu ffilmiau yn y DU.
- **Chwaraeon** – Bydd chwaraeon yn parhau'n allweddol i raglenni BBC One, Radio 5 Live a 5 Live Sports Extra, yn ogystal â sianeli eraill sy'n darlledu mewn meysydd amrywiol. Darlledir amrywiaeth eang o chwaraeon, gan gynnwys y digwyddiadau mwyaf yn y calendr rhyngwladol, chwaraeon pwysig y DU a chwaraeon arbenigol a lleol sydd â chefnogwyr teyrngar. Ategir y rhaglenni gan newyddiaduraeth annibynnol o ansawdd a dadansoddiadau gan arbenigwyr. Bydd bbc.co.uk yn cynnig mynediad ar gais i ddewis ehangach o gynnyrch chwaraeon nag sydd ar gael ar deledu llinol, yn enwedig chwaraeon lleiafrifol, ac yn darparu llwyfan i gefnogwyr gymryd rhan mewn trafodaeth am eu timau a'u diddordebau.
- **Llundain 2012** fydd un o'r digwyddiadau mwyaf i'r BBC roi sylw iddo erioed. Mae'n gyfle unigryw i ddod â chwaraeon, diwylliant a'n profiad cenedlaethol cyfan ledled y DU ynghyd. Bydd hefyd yn gymorth i dynnu sylw'r genedl at lawer o chwaraeon lleiafrifol, rhoi cyfle i godi proffil chwaraeon pobl anabl yn sylweddol a dathlu doniau amrywiol y genedl ym myd y campau. Fel y digwyddiad rhyngwladol cyntaf ers i Brydain ddod yn 100% ddigidol bydd y BBC yn defnyddio

pob llwyfan fydd ar gael i'w gwneud yn eiliad wirioneddol fythgofiadwy ym mywydau pobl ac un a fydd yn gwbl hygyrch i holl gynulleidfaoedd y DU.

3 Annog pobl i gymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau diwylliannol
Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai rhaglenni'r BBC ysgogi pobl i gymryd rhan mewn ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon. Bydd partneriaethau â chyrff eraill yn aml yn help inni gyflawni hyn."

Mae gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr yn datblygu perthynas fwy a mwy gweithredol gyda'r cyfryngau y maen nhw'n eu defnyddio, gyda chymorth technoleg ddigidol yn aml. Gall rhaglenni a gwefannau'r BBC ysgogi pobl i gymryd rhan neu ryngweithio gyda'r cynnwys a'u hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau neu weithgareddau. Dyma rai ffyrdd y bydd y BBC yn ceisio manteision i'r eithaf ar hyn:

- Parhau i ddefnyddio'i rhaglenni **cerddoriaeth a chelfyddydau** i annog y gynulleidfa i fynychu perfformiadau a gwyliau cerddorol, yn ogystal â chymryd rhan a mynegi eu creadigrwydd eu hunain.
- Trwy **bbc.co.uk**, sy'n werthfawr iawn o ran galluogi pobl i archwilio'u diddordebau, a chreu a rhannu eu cynnwys eu hunain. Bydd y BBC yn darparu lle i hyn, yn ogystal â'r wybodaeth, y cyfarpar a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar bobl greadigol (megis gwneuthurwyr ffilmiau ifanc) i gyflawni eu huchelgeisiau.
- Ar gyfer y gwylwyr ifancaf, bydd cynnwys **CBeebies** yn ysgogi diddordeb mewn amrywiaeth o bynciau – o arlunio a choginio i rythm a cherddoriaeth – ac yn darparu cynnwys wrth gefn ar ei gwefan i'w hannog a'u hysbrydoli ymhellach.
- Trwy ddarlledu **chwaraeon**, bydd y BBC yn annog cynulleidfaoedd i gymryd rhan a gwella'u sgiliau yn eu diddordeb dewisol.

4 Darparu ystod eang o gynnwys sy'n cynnig mwynhad ac adloniant
Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai adloniant ddal i fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y BBC. Dylai cynnyrch y BBC ddarparu adloniant, yn yr ystyr ei fod yn ymgysylltu â'r gynulleidfa, yn ei hudo, yn ei herio neu'n dwyn boddhad mawr iddi mewn ffyrdd sy'n dangos rhagoriaeth greadigol."

Mae darparu cynnwys sy'n denu a difyrru cynulleidfa eang yn allweddol i'r gwaith o gyflawni holl ddibenion y BBC. Mae'r BBC yn bwriadu rhoi sylw i'r flaenoriaeth hon trwy barhau i gynnig amrywiaeth ehangach o gynnwys wedi'i gynhyrchu yn y DU ar draws yr holl wasanaethau a llwyfannau nag unrhyw ddarlledwr arall yn y DU.

Mae'r BBC wedi ymrwymo i wella ei dealltwriaeth o'r ffordd y mae cynulleidfaoedd o bobl anabl yn defnyddio'r gwahanol gyfryngau ac i edrych yn fanwl ar eu barn am fecanweithiau cyflenwi gwasanaeth y BBC.

Gan symud ymlaen, dyma flaenoriaethau arbennig:

- **Drama teledu**, sy'n sylfaen i enw da y BBC ac yn ymestyn allan i gynulleidfa eang. Bydd BBC One yn arbennig yn buddsoddi mewn amrywiaeth unigryw o ddramâu, o rai newydd i sydd wedi cael eu darlledu ers peth amser, cyfresi cyfoes i addasiadau cyfnod, ffilmiau sengl a chyfresi digwyddiadau. Bydd dramâu ar BBC Two, BBC Three a BBC Four yn ategu hyn gyda chyfuniad o gyfresi drama a dramâu sengl, a fydd yn defnyddio dull mwy ystyriol a chanolbwyntio mwy ar waith awduron yn aml.
- **Adloniant o safon uchel**, o sioeau poblogaidd nos Sadwrn ar BBC One i fformatau newydd ar BBC Two neu BBC Three a sioeau ar Radio 1 a Radio 2. Mae'r rhain hefyd yn sicrhau eu bod yn cyrraedd cynulleidfaoedd eang, tra'n denu'n arbennig y rhai sy'n llai bodlon â'r gwasanaeth a chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n llawn.
- **Comedi newydd**, lle bydd y BBC yn ceisio datblygu ei swyddogaeth fel yr unig fuddsoddwr sylweddol yn niwydiant darlledu'r DU. Bydd comedi yn dal i gael ei darlledu ar bob gwasanaeth

teledu, yn ogystal â Radio 4, Radio 2 a BBC 7, gyda llwyfannau newydd yn gwneud cyfraniad hefyd, yn enwedig wrth ddarparu lle i ddoniau newydd arbrofi.

- Rhaglenni **ffeithiol** sy'n mabwysiadau dulliau newydd i gyflwyno cynnwys sy'n cynyddu gwybodaeth i gynulleidfa eang.

Ar y radio, bydd rhaglenni cerddorol yn parhau i ddarparu ffynhonnell werthfawr o adloniant i gynulleidfaoedd, tra bydd Radio 4 yn cynnig amrywiaeth eang o ddrama gan gynnwys dramâu, cyfresi ac addasiadau a darlleniadau rheolaidd o ffuglen, deunydd ffeithiol a barddoniaeth. Bydd Radio 3 yn parhau i ddarlledu cynyrchiadau drama gwreiddiol, arloesol a bydd BBC 7 yn cyflwyno adloniant llafar i gynulleidfaoedd o archifau'r BBC.

Bydd y BBC yn ceisio defnyddio bbc.co.uk fel llwyfan i arbrofi gyda dulliau newydd ym maes adloniant, gan gynnwys fformatau naratif newydd, yn aml mewn ffyrdd a allai apelio at gynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n nodweddiadol yn troi at y teledu am eu hadloniant.

5 Meithrin creadigrwydd a magu a chefnogi doniau'r DU ar draws meysydd amrywiol iawn
Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC fagu talent yn y DU drwy gyflwyno talent cynhyrchu, ysgrifennu ac ar yr awyr i gynulleidfaoedd. Dylai'r BBC hefyd geisio dod â'r dalent orau i'w chynulleidfaoedd o bob cwr o gymuned greadigol y DU."

Bydd y BBC yn ymdrechu i fod yn llwyfan i ddoniau'r DU o'r enwocaf i'r anwylaf i'r newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg. Dylai'r BBC fod yn lle deniadol lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi a lle mae'r rhai dawnus am fynd i weithio ynddo, ac un sy'n canolbwyntio ar arloesedd, ansawdd a chreadigrwydd.

Fel bo'r farchnad a chynulleidfaoedd yn datblygu i fod yn rhai byd-eang, bydd swyddogaeth y BBC fel un sy'n cefnogi doniau'r DU – y tu mewn a thu allan i'r BBC – yn dod yn gynyddol bwysig.

Bydd y BBC yn:

- Darparu cyfleoedd ar BBC One a BBC Two i ystod amrywiol o **ddoniau llwyddiannus y DU** ddisgleirio – gan gynnwys awduron, cyfarwyddwyr, cerddorion, ymchwilwyr, comedïwyr a thechnegwyr.
- Darparu cyfleoedd i **ddoniau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg** ar wasanaethau megis BBC Three a BBC Four. Bydd BBC Three yn gwneud cyfraniad hynod bwysig trwy roi llwyfan i awduron a pherfformwyr comedi newydd.
- Galluogi **cyflwynwyr sydd wedi hen sefydlu** i archwilio'u creadigrwydd ar Radio 1 a Radio 2, ac i ddoniau cyflwyno newydd ddatblygu eu sgiliau ar orsafoedd megis 1Xtra a 6 Music.
- Darparu cyfleoedd i **artistiaid newydd y DU** er mwyn i gynulleidfaoedd radio cael clywed eu cerddoriaeth.
- Buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o gomisiynu **drama a chomedi newydd** ar Radio 4 a **cherddoriaeth newydd** ar Radio 3.
- Sicrhau bod gwasanaethau gwahanol yn cydweithio **ar draws llwyfannau** i ddatblygu doniau newydd a darparu cyfleoedd heriol i'r rhai mwy sefydledig.
- Cynnal sail **gynhyrchu fewnol** fywiog, gan ddarparu maes hyfforddi blaengar yn ogystal â lle i ddoniau gorau Prydain allu datblygu eu gyrfaoedd a'u syniadau ar draws meysydd, gwasanaethau a llwyfannau amrywiol.
- Gweithio gyda **chynhyrchwyr annibynnol**, gan gefnogi cyfalaf creadigol y DU a buddsoddi ynddo, a darparu llwyfannau a chyfleoedd ar gyfer doniau a syniadau o safon.
- Comisiynu cynnwys o bob rhan o'r **DU gyfan**, gan sicrhau proses gomisiynu sy'n gweithredu ar sail teilyngdod i gefnogi'r gwaith o ddatblygu doniau o ystod amrywiol o gefndiroedd a darparu'r syniadau gorau i'r gynulleidfa.